agic hiw | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

GWEITHGAREDDAU SICRWYDD

Mae AGIC yn arolygu gwasanaethau'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn gofal diogel o ansawdd uchel. Drwy asesu gwasanaethau yn erbyn safonau, polisïau, canllawiau, a rheoliadau, rydym yn nodi meysydd i'w gwella ac yn llywio newid cadarnhaol. Mae ein gweithgareddau sicrwydd yn ein helpu i adolygu gofal iechyd yng Nghymru drwy arolygiadau a gwaith monitro sy'n seiliedig ar risgiau ac a gaiff eu harwain gan wybodaeth, drwy ymchwilio i bryderon a thrwy gynnal adolygiadau. Ceir rhagor o wybodaeth isod!

Arolygiadau

Gall ein harolygiadau gofal iechyd fod ar ffurf arolygiad lle rhoddwyd rhybudd neu arolygiad dirybudd. Rydym yn cadarnhau a yw gwasanaethau yn cydymffurfio â'r rheoliadau, yn cyrraedd y safonau gofal iechyd, ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau.

Adolygiadau

Rydym yn cynnal rhaglen o adolygiadau er mwyn asesu ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i sicrhau bod prosesau goruchwylio a sicrwydd cynhwysfawr ar waith.

Dweud Eich Dweud

Rydym yn gwrando ar bryderon a gawn am wasanaethau gofal iechyd ac yn eu rheoli'n effeithiol ac yn cefnogi prosesau chwythu'r chwiban i staff er mwyn sicrhau y caiff lleisiau pawb eu clywed.

Gwybodaeth

Rydym yn defnyddio ein swyddogaeth gwybodaeth fewnol i sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar y meysydd sy'n peri'r risg fwyaf i gleifion.